Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# YGGG Llantrisant
# Ffordd Cefn-Yr-Hendy
# Miskin
# Pontyclun
# Rhondda Cynon Taf
# CF72 8TL

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/02/2013**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol Gymraeg benodedig ym mhentref Meisgyn yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n gwasanaethu pentrefi Llantrisant, Meisgyn, y Groes Faen a'r ardaloedd cyfagos. Disgrifir yr ardal fel un nad yw yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd.

Ar hyn o bryd, mae 364 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Maent yn dechrau'r ysgol yn syth wedi eu trydydd pen-blwydd. Cânt eu haddysgu mewn naw o ddosbarthiadau sy'n cynnwys plant o'r un oed a phedwar o ddosbarthiadau cymysg o ran oed. Gan gynnwys y pennaeth a'r athrawes cefnogi dysgu, mae 12 o athrawon amser llawn, a thri o athrawon rhan amser yn yr ysgol.

Mae 2.19% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim - ffigwr sydd yn sylweddol is na'r ffigyrau sirol a chenedlaethol. Mae 68 o ddisgyblion (16.75%) ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Daw 141 o'r disgyblion (tua 41%) o gartrefi ble siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd. Cymraeg yw cyfrwng addysgu a dysgu ar draws yr ysgol, ond fe gyflwynir rhaglen astudio Saesneg i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2. Daw wyth disgybl o gefndir lleiafrifol ethnig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Nhachwedd 2006 a bu newid i reolaeth yr ysgol ers hynny. Cafodd y pennaeth ei benodi i'r swydd ym Medi 2012. Cyn hynny, bu'n ddirprwy bennaeth yr ysgol am ddeng mlynedd. Mae'r dirprwy bennaeth cyfredol yn ei swydd ers Medi 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer YGGG Llantrisant yn 2012-2013 yw £2,718. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf yw £6,197 a'r lleiafswm yw £2,561. Mae YGGG Llantrisant yn safle 108 o'r 113 ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- y disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn ystod y blynyddoedd diweddar wedi bod yn gyson uchel;
- safonau llythrennedd disgyblion yn gyson dda;
- y disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol;
- yr ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol iawn;
- safon yr addysgu ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda; ac
- mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr sydd yn ennyn diddordeb ac ateb gofynion disgyblion o bob oedran

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth wedi llwyddo i gyfleu gweledigaeth glir i staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni;
- aelodau yr uwch dîm rheoli yn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol;
- y llywodraethwyr yn cyflawni eu rôl fel ffrind beirniadol ac arweinwyr strategol yn llwyddiannus iawn;
- y broses hunanarfarnu yn drylwyr iawn ac yn cynnwys llywodraethwyr, athrawon a chynorthwywyr mewn ffordd weithredol; ac
- mae'r cynllun gwella ysgol yn nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer gwelliant sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar ddeilliannau disgyblion.

## Argymhellion

A1 Codi safonau gwaith ysgrifenedig bechgyn

A2 Cynllunio’n fwriadus i sicrhau dilyniant a chynnydd mewn medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth

A3 Datblygu cymunedau dysgu proffesiynol mewn meysydd sy’n flaenoriaethau gwella yn yr ysgol

A4 Cryfhau rôl strategol yr uwch dîm rheoli wrth arwain yr ysgol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn datblygu eu medrau dysgu yn llwyddiannus yn y Cyfnod Sylfaen ac yn cyflawni gwaith o safon da mewn sesiynau dysgu ac yn eu llyfrau gwaith yng nghyfnod allweddol 2.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn dangos dealltwriaeth gynyddol o'u dysgu eu hunain ar draws y cwricwlwm. Maent yn ymwybodol o'u targedau, a gallant drafod nodweddion da eu gwaith yn ddeallus ac maent yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n gynyddol hyderus ar lafar yn Gymraeg ac yn Saesneg. Wrth dyfu drwy'r ysgol, maent yn sgwrsio'n glir am eu gwaith ac yn anffurfiol mewn amrywiol sefyllfaoedd gan ddefnyddio geirfa gynyddol gyfoethog ac amrywiol, gan gynnwys geirfa sy'n berthnasol i bynciau'r cwricwlwm.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o disgyblion yn datblygu'n dda iawn. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn darllen yn hyderus, ac mae'r goreuon yn defnyddio goslef llais i gyfleu ystyr yn effeithiol iawn. Yng nghyfnod allweddol 2, maent yn darllen yn rhugl, yn gywir ac yn ddeallus yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallant drafod eu hoff awduron a chynnwys llyfrau'n effeithiol a deallus, gan fynegi a chyfiawnhau barn amdanynt.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n estynedig i safon briodol mewn Cymraeg a Saesneg. Mae cyflwyniad gwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn daclus a threfnus, a gallant ddefnyddio'u medrau llythrennedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Beth bynnag eu cefndir ieithyddol, mae'r disgyblion yn defnyddio Cymraeg yn hyderus a naturiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Yn gyffredinol, pan nad ydynt dan oruchwyliaeth oedolion, byddant yn dewis defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru, ac maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol Cymraeg, megis eisteddfodau a chyngherddau. Maent yn gwneud hynny i safon uchel.

Nid yw canlyniadau asesiadau athro ar y safon disgwyliedig (deilliant 5+) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn un o'r meysydd dysgu yn cymharu'n ffafriol gyda chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. Yr oedd 26% o'r garfan y gofrestr anghenion arbennig, sef y ganran uchaf yn hanes yr ysgol. Wrth gymharu gydag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, yr oedd yr ysgol yn y 25% isaf ym mhob maes dysgu, a dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Nid yw'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu perfformiad blaenorol yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 1.

Ar y safon uwch na'r disgwyl (deilliant 6+) mae'r ysgol yn agos at gyfartaleddau'r teulu a Chymru, ac ymhlith yr 50% uchaf o ysgolion tebyg mewn iaith a chyfathrebu, ac yn yr 50% isaf mewn meysydd dysgu eraill.

Mae canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4+), yn ystod y blynyddoedd diweddar wedi bod yn gyson uchel mewn cymhariaeth gyda'r teulu a Chymru, er eu bod wedi disgyn rhyw ychydig yn 2012. Wrth gymharu gydag ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, bu'r ysgol yn gyson yn yr 50% uchaf ym mhob un o'r pynciau craidd, ac eithrio Saesneg a gwyddoniaeth yn 2012, pan oedd yn yr 50% isaf.

Yn y lefelau uwch na'r disgwyl (lefel 5+) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2012, mae'r ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg mewn Cymraeg a Saesneg, ac yn yr 50% isaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Nid oes patrwm cyson o wahaniaeth ym mherfformiad bechgyn a merched yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er hynny, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn Cymraeg a Saesneg, ac yn arbennig mewn medrau ysgrifennu.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau. Nid oes digon o ddisgyblion â'r hawl i ginio am ddim, nac o gefndiroedd ethnig, i wneud dadansoddiad ystyrlon.

**Lles: Da**

Mae Ysgol Llantrisant yn ysgol hapus lle mae'r disgyblion yn teimlo'n gwbl ddiogel. Maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bwyta a byw'n iach a chânt gyfleoedd i ymarfer corff yn rheolaidd yn ystod eu gwersi ac yn y clybiau amrywiol ar ôl ysgol. Teimla'r disgyblion yn hyderus i droi at ffrindiau ac athrawon ar unrhyw adeg o bryder.

Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn gwrtais a chroesawgar ac maent yn ofalus iawn o'i gilydd. Mae bron pob disgybl yn dangos agwedd gadarnhaol iawn at eu dysgu. Maent yn ymwybodol iawn o'u targedau gwella, ac yn deall yn dda yr hyn sydd angen iddynt eu wneud i wella eu gwaith. Maent yn canolbwyntio'n effeithiol ar eu tasgau ac yn cydweithio'n hwylus gyda'i gilydd fesul pâr ac mewn grwpiau.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a chyngor Eco yn teimlo bod eu llais yn bwysig a bod oedolion yn gwrando arnynt.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae lefelau presenoldeb wedi bod dros 94% sydd ymhlith y 50% uchaf o ysgolion tebyg. Bydd bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr sydd yn ennyn diddordeb ac yn ateb gofynion disgyblion o bob oedran. Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol i

gynllunio rhaglenni cynhwysfawr. Mae ystod dda o weithgareddau all gwricwlaidd ar gael i'r disgyblion hŷn sydd yn cyfrannu at eu datblygiad diwylliannol a chorfforol yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion datblygu eu medrau, ond nid yw'r cyfleoedd wedi eu cynllunio yn ddigon bwriadus i sicrhau dilyniant a chynnydd cyson ymhob maes.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn gynhwysfawr ac yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da iawn. Mae pwyslais amlwg ac effeithiol ar gyfoethogi geirfa'r plant trwy bob maes dysgu a phob pwnc. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant a hanes Cymru yn llwyddiannus.

Dengys y disgyblion ddealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd materion yn ymwneud â datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r ysgol yn eu hybu i edrych ar ôl eu hamgylchedd a'u cyd-ddyn ac mae gwaith y cyngor eco yn dyst i'r holl weithgarwch amrywiol a bywiog sy'n digwydd ar bob lefel yn yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu yn gyffredinol dda. Mae gan athrawon ac oedolion eraill berthynas dda gyda'r disgyblion a gwybodaeth bynciol drwyadl. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau a gweithgareddau i ysbrydoli a herio'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus.

Yn y rhan fwyaf o wersi mae cyflwyniadau bywiog, cyflymder da a holi effeithiol. Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn rhoi sylw da i anghenion pob un o'r disgyblion. Mewn ychydig bach o achosion, nid oes digon o her ar gyfer disgyblion mwy abl ac nid yw'r nod na'r meini prawf llwyddiant yn glir.

Mae athrawon yn modelu iaith dda ar bob achlysur, ac yn annog disgyblion i ddatblygu eu Cymraeg mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau gwahanol. Maent yn cynllunio yn effeithiol ac yn llwyddo i ysgogi'r disgyblion. Gwneir defnydd medrus a dychmygus o adnoddau.

Mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion ar lafar a thrwy farcio. Mae asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n dda ac mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion hunanasesu, ac mae cyfleoedd rheolaidd iddynt asesu gwaith eu cyfoedion.

Caiff cynnydd disgyblion ei dracio yn systematig drwy'r ysgol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth hyn, yn ogystal â data perfformiad yn eu cynllunio. Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth fanwl am gyflawniad a datblygiad eu plant mewn adroddiadau blynyddol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gweithredu fel cymuned ofalgar. Mae'r disgyblion yn hapus iawn yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus ac yn sicrhau eu bod yn mwynhau cyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o wasanaethau arbenigol i ddarparu a gwella cefnogaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae cyfraniad effeithiol gan y cynorthwywyr dosbarth wrth gyflawni rhaglenni i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Caiff ymwybyddiaeth gymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion ei ddatblygu'n llwyddiannus. Digwydd hyn trwy ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a thrwy raglenni gwaith a gweithredoedd cyd addoli. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da sy'n cyfrannu at yr ethos cadarnhaol iawn sy'n amlwg drwy'r ysgol.

Mae pob disgybl yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu o fewn holl weithgareddau'r ysgol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hadnabod yn gynnar a rhoddir targedau a chefnogaeth addas iddynt. Mae cynlluniau addysg unigol manwl yn sicrhau bod y gwaith a ddarperir ar gyfer y disgyblion hyn yn cyd-fynd â'u hanghenion. Mae bron bob un yn gwneud cynnydd priodol dros amser.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant yn gymuned gyfeillgar, frwdfrydig, llawn gofal lle mae pob unigolyn yn bwysig. Mae'n gwireddu ei nod o weithio gyda'i gilydd er lles y plant. Mae polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith yma sy'n sicrhau cyfle cyfartal a thriniaeth deg i holl ddisgyblion yr ysgol. Drwy'r gweithdrefnau hyn, datblygir disgyblion sy'n gyfrifol ac aeddfed sy'n barod i wynebu'r cam nesaf yn eu gyrfa.

Caiff y safle ei ddefnyddio'n bwrpasol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ystafelloedd dosbarth a choridorau'r ysgol yn lliwgar iawn ac yn arddangos gwaith a llwyddiannau'r disgyblion. Ceir digon o staff ac adnoddau ar gyfer cyflwyno pob agwedd o'r cwricwlwm. Datblygwyd ardal allanol yr ysgol yn effeithiol gyda chydweithrediad y gymdeithas rhieni. Ceir ystafell gymuned leol yn rhan o'r adeilad a defnyddir hon ar gyfer amrywiol gyfarfodydd gan aelodau'r gymuned yn rheolaidd. Mae'r toiledau'n lân ac addas a chaiff yr holl safle ar adeilad eu cadw'n raenus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Er nad yw'r pennaeth ond wedi ei benodi i'w swydd yn ddiweddar, mae wedi llwyddo i gyfleu gweledigaeth glir i staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. Seilir y weledigaeth honno'n gadarn ar ddatganiad yr ysgol, "Gweithio gyda'n gilydd er mwyn y plant". Mae'n adnabod yr ysgol yn dda ac yn ei harwain yn effeithiol iawn gyda chymorth y dirprwy bennaeth a'r uwch dîm rheoli. Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae cyfrifoldebau'r dirprwy bennaeth yn glir, ac mae'n ymgymryd â nhw yn gynyddol effeithiol. Mae'r uwch dîm rheoli yn cyflawni eu dyletswyddau yn llwyddiannus drwy osod disgwyliadau uchel ar draws yr ysgol. Maent yn gweithio'n effeithiol i sicrhau gwelliant mewn safonau cyflawniad disgyblion mewn meysydd a chyfnodau dysgu penodol. Maent yn gwneud hyn drwy arwain athrawon i gydgynllunio a chydweithio, ac wrth fonitro dysgu ac addysgu. Er hyn, nid yw eu rôl fel arweinwyr strategol wedi ei datblygu'n llawn hyd yma.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad effeithiol sy'n cynnal a hybu datblygiad proffesiynol yr athrawon a chynorthwywyr dosbarth.

Mae gan y llywodraethwyr ymwybyddiaeth gadarn o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. Mae pob un ohonynt yn gysylltiedig â chydlynydd pwnc neu faes dysgu o fewn yr ysgol. Mae eu dealltwriaeth o ddata perfformiad yr ysgol dros gyfnod yn gwbl gadarn, ac mae eu rôl fel ffrind beirniadol sy'n herio'r ysgol yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n effeithiol, ac mae asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n dda drwy'r ysgol. Bu codi safonau llythrennedd a rhifedd yn ganolbwynt sylw cyson yn y cyfnod diweddar.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r trefniadau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gadarn.

Mae'r pennaeth, aelodau'r staff ar llywodraethwyr yn adnabod y meysydd i'w datblygu o fewn yr ysgol ac maent yn cyfarfod ar y cyd fel rhan o'r broses arfarnu.

Mae hyn yn arfer arbennig o dda. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn adlewyrchu'n gywir sefyllfa gyfredol yr ysgol. Mae deilliannau'r broses hunanarfarnu yn dylanwadu'n briodol ar flaenoriaethau'r cynllun gwella'r ysgol.

Caiff y cynllun gwella ysgol ei seilio ar arfarniad o'r cynllun blaenorol a'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o fewn y broses hunanarfarnu. Mae'r blaenoriaethau wedi eu ffocysu'n briodol ar wella safonau llythrennedd a rhifedd. Mae'r broses yn rhan reolaidd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae pwyslais parhaus ar fesur effaith blaenoriaethau ar ddeilliannau disgyblion ac addysgu. Mae'r ysgol yn monitro cynnydd disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion yn effeithiol

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer arsylwi mewn ystafelloedd dosbarth ac mae cymedroli yn digwydd fesul adrannau ac ar draws yr ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar addysgu a safonau disgyblion.

Mae'r uwch dim rheoli yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd ar gyfer datblygiad pellach yn dda. Mae'r holl staff yn rhannu ymdeimlad cryf o bwrpas cyffredin lle mae'r disgyblion yn ganolog i'r holl benderfyniadau.

Mae enghreifftiau da o gydweithio a rhannu arferion addysgu effeithiol o fewn yr ysgol a gydag ysgolion eraill. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi adnabod yr angen i godi safonau rhifedd y disgyblion. O ganlyniad, mae'r ysgol yn dechrau gweithio gyda ysgolion y clwstwr i fod yn rhan o gymuned ddysgu ar strategaethau priodol i wella'r ddarpariaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gydag ystod o bartneriaethau sydd yn cynnig manteision i'w safonau a'u lles.

Ceir cydweithio cryf gyda rhieni'r ysgol sy'n gwneud gwaith da iawn i hybu adnoddau'r ysgol, trwy'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.  Mae cyswllt effeithiol iawn rhwng yr ysgol a rhieni disgyblion sydd ar fin dechrau'r ysgol.  Mae'r cyfarfodydd penwythnos sy'n cynnwys rhieni, darpar ddisgyblion, athrawon a llywodraethwyr yn ffordd ragorol o hwyluso'r broses o ddechrau ysgol.

Mae gan yr ysgol gyswllt da gyda'r gymuned.  Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o ymweliadau oddi ar safle'r ysgol ynghyd â chroesawu ymwelwyr i siarad am eu gwaith.  Mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi eu profiadau dysgu a'u hymwybyddiaeth o'u cynefin.

Mae partneriaethau da gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol sy'n cael effaith bositif ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion.  Mae'r gyd-berthynas gydag asiantaethau megis y gwasanaethau gofal, yr Heddlu, y gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bartneriaeth Addysg a Busnes yn effeithiol iawn.  Mae'r cysylltiadau gyda busnesau lleol i hybu ymwybyddiaeth disgyblion o fyd gwaith yn datblygu.

Ceir cydweithrediad  agos gydag ysgolion cynradd lleol ac mae'r gweithgarwch gyda'r ysgol Uwchradd leol yn sicrhau pontio llwyddiannus i'r disgyblion sy'n eu paratoi'n briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.  Mae trefniadau effeithiol i safoni a chymedroli asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol ac i sicrhau trosglwyddo esmwyth.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu a chynorthwyol i gyflawni ei gwaith, a chânt eu dyrannu'n effeithiol.  Caiff hyfforddiant ei gysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol a'r cynllun gwella'r ysgol a defnyddia'r ysgol y cynorthwywyr dosbarth yn effeithiol i gefnogi'r dysgu.  Mae'r athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu'n effeithiol.

Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad ar gyfer athrawon a chynorthwywyr dosbarth sy'n arwain at gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, ac sydd eisoes wedi creu cyswllt cychwynnol ag ysgolion o fewn y teulu o ysgolion.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda. Mae ganddi ddigon o adnoddau dysgu sydd o ansawdd da, ac mae'n manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi'r ddarpariaeth.  Er enghraifft, mae'r ysgol yn rhan o brosiect clwstwr lle dyrennir swm sylweddol i'r ysgol i sicrhau cynorthwywyr ychwanegol rhan amser i gefnogi datblygu medrau llythrennedd.

Mae'r corff llywodraethol yn monitro cyllid yr ysgol yn ofalus ac yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yr ysgol yn gysylltiedig â blaenoriaethau ar gyfer gwella a lles plant.

O ganlyniad, ac mewn perthynas â deilliannau dysgu a safonau da, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yr oedd 26% o garfan 2012 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y gofrestr anghenion arbennig, sef y ganran uchaf yn hanes yr ysgol. Nid yw canlyniadau asesiadau athro ar y safon disgwyliedig (deilliant 5+) mewn datblygiad iaith, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, a dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn cymharu'n ffafriol gyda chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. Wrth gymharu gydag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, yr oedd yr ysgol yn y 25% isaf yn yr un meysydd dysgu.

Nid yw'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu perfformiad blaenorol yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, pan oedd yr ysgol yn gyson yn cymharu'n ffafriol gyda chyfartaleddau'r teulu ac ysgolion tebyg.

Ar y safon uwch na'r disgwyl (deilliant 6+), mae'r ysgol yn agos at gyfartaleddau'r teulu a Chymru, ac ymhlith yr 50% uchaf o ysgolion tebyg mewn iaith a chyfathrebu, ac yn yr 50% isaf mewn meysydd dysgu eraill.

Mae canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4+), yn ystod y blynyddoedd diweddar wedi bod yn gyson uchel mewn cymhariaeth gyda'r teulu a Chymru, er eu bod wedi disgyn rhyw ychydig yn 2012. Wrth gymharu gydag ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, bu'r ysgol yn gyson yn yr 50% uchaf ym mhob un o'r pynciau craidd, ac eithrio Saesneg a gwyddoniaeth yn 2012, pan oedd yn yr 50% isaf.

Yn y lefelau uwch na'r disgwyl (lefel 5+) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2012, mae'r ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg mewn Cymraeg a Saesneg, ac yn yr 50% isaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Nid oes patrwm cyson o wahaniaeth ym mherfformiad bechgyn a merched yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er hynny, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn Cymraeg a Saesneg, ac yn arbennig mewn medrau ysgrifennu.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 107 o holiaduron oddi wrth ddisgyblion yr ysgol. Mae’r ymateb yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn, ac yn fwy positif na’r cyfartaledd ar draws Cymru.

Mae’r disgyblion i gyd yn dweud:

- eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol;
- bod llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff yn yr ysgol;
- bod athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os yw gwaith yn anodd; a
- bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae bron pob disgybl yn dweud:

- bod yr ysgol yn delio’n dda gydag unrhyw fwlio;
- eu bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn gofidio am rywbeth;
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw’n iach;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol; a
- bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella gwaith ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dweud bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio, ac mae llawer yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda fel eu bod yn gallu gwneud eu gwaith.

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Ymatebodd 146 o rieni i’r holiaduron, sydd yn ganran sylweddol uwch na’r arfer mewn ysgolion ar draws Cymru. Mae’r ymatebion yn gyffredinol gadarnhaol ond, mewn rhai agweddau, nid ydynt mor bositif ag ymatebion ysgolion ar draws Cymru.

Dywedodd pob rhiant bod:

- eu plant yn hapus yn yr ysgol; a
- bod staff yn disgwyl i’w plant weithio’n galed a gwneud eu gorau.

Dywedodd bron pob rhiant bod:

- eu plentyn wedi cael cymorth i ymsefydlu’n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- yr addysgu’n dda;
- eu plant yn cael eu hannog i gadw’n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu plant yn ddiogel yn yr ysgol;

- eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- yr ysgol yn helpu eu plant i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn da.

Dywedodd y rhan fwyaf o rieni bod:

- bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- bod plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf; a'u
- bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol;

Dywed llawer o rieni eu bod yn:

- credu bod gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant yn yr ysgol;
- teimlo'n esmwyth ynglŷn a gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion; a
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Terry Williams | Arolygydd Tîm |
| Meinir Howells | Arolygydd Tîm |
| Ann Jones | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Tristan Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ryan O'Neil | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad i holl rieni’r ysgol.  Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai’r ysgol anfon copi o’r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.  Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati.  Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |